

## GRIFFITH, WILLIAM (1719 - 1782), ffermwr

**Enw:** William Griffith  
**Dyddiad geni:** 1719  
**Dyddiad marw:** 1782  
**Priod:** Alice Griffith (née Ellis)  
**Plentyn:** Mary Griffith  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** ffermwr  
**Maes gweithgaredd:** Natur ac Amaethyddiaeth  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Drws-y-coed Uchaf ar flaen dyffryn Nantlle o 1744 hyd ei farwolaeth; gŵr hysbys i **Oronwy Owen**, **Margaret Davies** o'r Coedcae-du, a 'Dafydd Ddu Eryri' (David Thomas) fel carwr llenyddiaeth, ond sydd hefyd yn haeddu sylw am mai ei dŷ ef oedd aelwyd y genhadaeth Forafaidd yng Ngwynedd o 1768 hyd 1776 - gweler dan yr enwau **David Williams** (1702 - 1779), **David Mathias**, a **John Morgan** (1743 - 1801). Nid iddo ef yn gymaint y mae hynny i'w briodoli, eithr yn hytrach i'w briod ALICE (1730 - 1808), ferch Rhys Ellis o'r Tyddyn Mawr yn Llanfihangel-y-pennant (teulu llengar arall); fe'u priodwyd 16 Tachwedd 1753. Bu Griffith farw 20 Ebrill 1782, a'i weddw 6 Mawrth 1808; ym Meddgelert y claddwyd hwy. Cawsant fab (a ymfudodd i'r U.D.) ac wyth o ferched; daeth pump o'r rhain yn weithwyr selog gyda Morafiaeth yn Nulyn neu ym Mryste; un arall ohonynt oedd mam Alicia Evans, priod **William Griffith** (1801 - 1881) o Gaergybi. Yr oedd gan William Griffith o Ddrws-y-coed chwaer, Jane, a'i merch hi, Janet, oedd priod **John Griffith** (1752 - 1818) - yr oedd **William Griffith**, Caergybi, a'i wraig Alicia felly'n gyfyrdyr; hwy oedd rhieni **Syr John Purser Griffith**. Ac yr oedd gan Alice Griffith o Drws-y-coed hithau chwaer, Margaret (Price), o'r Glyn, Talsarnau; aeth un o'i merched i'r gwaith Morafaidd yn Nulyn, Bryste, Bedford, a Llundain.

### Awdur

Yr Athro Emeritus **Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

Y *Cymmrodor*, xlv (1938), a'r cyfeiriadau yno

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734620

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). GRIFFITH, WILLIAM (1719 - 1782), ffermwr. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Medi 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GRIF-WIL-1719>

Griffith

Preifatrwydd a Chwci  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government